



Older People's Commissioner for Wales  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

---

# Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth

---

Gwybodaeth a Chyngor i Bobl Hŷn



Ionawr 2016

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 08442 640 670

E-bost: [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)  
Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

# Cynnwys

<b>Beth yw Oedraniaeth?</b>	<b>03</b>
<b>Gwahaniaethu ar sail Oed yn y Cyfryngau</b>	<b>04</b>
<b>Gwahaniaethu ar sail oed yn y Gwaith</b>	<b>05</b>
<b>Gwahaniaethu ar sail Oed mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal</b>	<b>06</b>
<b>Gwahaniaethu ar sail oed mewn gwasanaethau defnyddwyr</b>	<b>07</b>
<b>Gwahaniaethu ar Sail Oedran a Hawliau Dynol</b>	<b>11</b>
<b>Manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau sy'n cynnig gwybodaeth a chynngor arbenigol am ddim</b>	<b>13</b>



## Beth yw Oedraniaeth?

Oedraniaeth yw trin pobl yn wahanol oherwydd eu hoed neu ganfyddiad o'u hoed. Mae'n fater difrifol sy'n gallu difetha bywydau. Mae oedraniaeth hefyd yn cael ei adnabod fel gwahaniaethu ar sail oed ac fe'i gwaherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu os ydych yn cael profiad ohono, fod diogelwch cyfreithiol ac y gallwch wneud rhywbeth yn ei gylch.

Mae'r daflen hon yn manylu ar bedwar maes lle mae gwahaniaethu ar sail oed yn digwydd amlaf i bobl hŷn ac mae'n cynnig arweiniad ynglŷn â sut y gallwch gymryd camau yn ei erbyn.

## Gwahaniaethu ar sail Oed yn y Cyfryngau

Mae gan y cyfryngau lawer o bŵer a dylanwad ar y ffordd yr ydym yn meddwl am oedran. Felly mae'n bwysig bod y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu cynrychioli'n deg a chywir. Mae hyn yn cynnwys defnyddio delweddau ac iaith sy'n adlewyrchu ystod amrywiol o brofiadau, diddordebau a dyheadau pobl hŷn.

Wrth ddarllen neu wrando ar adroddiadau yn y cyfryngau (yn cynnwys print, teledu, radio, rhyngwrdd a chyfryngau cymdeithasol), gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol i benderfynu a oes unrhyw ragfarn ar sail oedran:

- Ydi adrodd ynghylch oedran rhywun yn ychwanegu unrhyw beth at y stori?
- Ydi'r darlun hwn neu'r stori hon yn cadarnhau neu'n herio stereoteipiau negyddol?
- Ydi'r cyhoeddiad neu'r sianel hon yn adrodd yn rheolaidd ynghylch straeon negyddol am bobl hŷn neu heneiddio?
- Ydi'r cyhoeddiad neu'r sianel hon wedi adrodd straeon cadarnhaol am bobl hŷn neu heneiddio?
- Os oes straeon cadarnhaol, ydyn nhw o natur nawddoglyd?

Os ydych yn teimlo fod oedraniaeth, gallwch:

- Gysylltu â'r golygydd (papurau newydd neu gylchgronau), darlledwr (radio neu deledu), neu berson sy'n rhannu'r stori (cyfryngau cymdeithasol) i dynnu sylw at y oedraniaeth a gofyn am gynnwys mwy cytbwys sy'n adlewyrchiad cywirach o werth a chyfraniad pobl hŷn at y gymdeithas.
- Os nad yw hyn yn arwain at ymateb boddhaol, yna cysylltwch â'r corff rheoleiddio perthnasol i dynnu eu sylw at y gŵyn (OFCOM ar gyfer y rhan fwyaf o gynnwys yn y cyfryngau neu'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ar gyfer hysbysebion).

Mae mynd i'r afael â'r rhagfarn y deuwch ar ei draws yn gallu cael effaith gadarnhaol iawn ar y stereoteipiau negyddol y mae pobl hŷn yn eu profi.

## Gwahaniaethu ar sail oed yn y Gwaith

Mae gwaith ystyrion yn gallu helpu pobl i aros yn egniol, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'n gwella iechyd a lles. Fodd bynnag, mae ceiswyr gwaith hŷn hefyd fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith yn y tymor hir o'i gymharu â cheiswyr gwaith iau ac mae mwy na 1 o bob 3 o bobl yng Nghymru rhwng 50 oed ac oed Pensiwn Gwladol - dros 214,000 o bobl - yn ddi-waith. Mae oedraniaeth a gwahaniaethu o fewn y gweithle, sy'n seiliedig ar fythau y mae angen eu chwalu ynglŷn â diffyg cynhyrchiant, iechyd salach ac amharodrwydd i addasu i newid, yn rhwystr i bobl hŷn aros neu gael ail-fynediad i'r farchnad lafur.

Wrth ymgeisio am swyddi neu tra ydych mewn gwaith, gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol i benderfynu a oes unrhyw ragfarn ar sail oedran:

- Ydi hysbysebion swyddi'n rhoi'r argraff nad oes gan y cyflogwr o bosibl ddiddordeb ynoch fel person hŷn (e.e. y cyflogwr yn gofyn am gymwysterau fel TGAU neu dargedu'r recriwtio at ffeiriau graddedigion)?
- Yn y gweithle, ydi cyfleoedd i gael dyrchafiad a hyfforddiant yn agored i bob oed ac yn gyfartal a theg?
- Yn y gweithle, ydi arfarniadau gwaith yn rhydd rhag unrhyw ganfyddiadau am oed ac yn seiliedig ar wir berfformiad?
- Os bydd sefyllfaoedd codi sy'n golygu bod angen colli swyddi, ydyn nhw'n cael eu cynnal heb dybiaethau ynglŷn ag oed (e.e. yn rhydd rhag tybiaethau y bydd pobl hŷn yn ymddeol cyn bo hir)?

Mewn cyflogaeth, mae'n bwysig nodi y gallai fod 'cyfiawnhad gwrthrychol' dros drin rhywun yn wahanol oherwydd eu hoed. Os ydych yn cael profiad o wahaniaethu ar sail oed wrth chwilio am waith neu yn y gweithle, gallwch:

- siarad gyda'r cyflogwr i geisio ateb anffurfiol a derbyniol
- gwneud cwyn ffurfiol i'r cyflogwr drwy eu gweithdrefn gwyno
- gwneud hawliad i'r tribiwnlys cyflogaeth (bydd ffi ar gyfer hyn)
- yn unrhyw un o'r camau, mynnwch gyngor a chymorth am ddim gan asiantaeth arbenigol sy'n gallu rhoi cyngor ar sail eich profiad a'ch amgylchiadau unigol (e.e. gan ACAS neu CAB)

# Gwahaniaethu ar sail Oed mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal

Pan ydym yn sâl, rydym eisiau cael y driniaeth orau sydd ar gael. Fodd bynnag, weithiau mae problemau'n cael eu priodoli i 'henaint', yn cael eu hanwybyddu, ni ymchwilir yn llawn iddynt na'u trin yn llawn.

Mae dyletswydd ar unrhyw un sy'n gweithio i'r GIG neu yn y sector gofal iechyd preifat (yn cynnwys staff meddygol proffesiynol, fel ymgynghorwyr, meddygon a nyrsys, gweithwyr gofal cartref, staff derbynfa, rheolwyr, staff diogelwch, glanhawyr, gyrrwyr ambiwlans) i beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn.

Wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd neu ofal, gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol i benderfynu a oes unrhyw ragfarn ar sail oedran:

- Oes yna wasanaeth yn cael ei wrthod i chi oherwydd eich oed (mae'n bwysig nodi bod rhai triniaethau lle mae sylfaen tystiolaeth yn awgrymu nad ydynt yn effeithiol y tu hwnt i oedran penodol)?
- Ydych chi'n derbyn gwasanaeth o ansawdd gwaeth neu ar delerau gwaeth nag a fyddai'n cael ei gynnig fel arfer oherwydd eich oed?
- Ydi'r darparwr yn ymddwyn mewn ffordd sy'n gysylltiedig â'ch oed sy'n achosi trallod i chi, yn eich tramgwyddo neu'n codi ofn arnoch?
- Ydi'r darparwr yn eich cosbi oherwydd eich bod yn cwyno am wahaniaethu neu'n helpu rhywun arall sy'n cwyno oherwydd mater sy'n gysylltiedig ag oed?

Os ydych yn cael profiad o wahaniaethu ar sail oed mewn gwasanaethau iechyd neu ofal, yna gallwch:

- wneud cwyn i'r ward, ysbyty neu gartref gofal
- os nad ydych yn fodlon â chanlyniad eich cwyn, yna gallwch fynd ag ef ymhellach drwy wneud cwyn i'r bwrdd iechyd perthnasol (ar gyfer gwasanaethau iechyd), awdurdod lleol (ar gyfer gwasanaethau gofal), ac os nad yw hyn yn arwain at ymateb boddhaol, yna at gorff rheoleiddio:
  - Eich Cyngor Iechyd Cymuned Lleol
  - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
  - Cyngor Gofal Cymru
  - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
  - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru



Yn ystod unrhyw un o'r camau uchod, mynnwch gyngor a chymorth am ddim gan arbenigwr sy'n gallu rhoi cyngor yn seiliedig ar eich profiadau a'ch amgylchiadau unigol (e.e. gan y Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Cydraddoldeb neu CAB)

## Gwahaniaethu ar sail oed mewn gwasanaethau defnyddwyr

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys darparwyr nwyddau a gwasanaethau, yn ogystal â gwasanaethau fel iechyd a gofal cymdeithasol, Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys siopau, gwestai ac yswirwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n golygu na ellir eich trin yn annheg oherwydd eich oed. Fodd bynnag, mae nifer o eithriadau penodol yn ymwneud â rhai gwasanaethau defnyddwyr ac ariannol. Dyma enghreifftiau:

- gwyliau'n ymwneud ag oed a gynigir i bobl dros 50 oed
- clybiau cymdeithasol neu hamdden sydd ar gyfer oedrannau penodol yn unig
- yswirwyr yn gallu cymryd oed i ystyriaeth wrth gyfrifo premiwm a banc yn gallu gwrthod cynnyrch ariannol i gwsmer ar sail ei oed – fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn seilio'r penderfyniad ar wybodaeth ddibynadwy a pherthnasol, yn hytrach na gwneud rhagdybiaeth gyffredinol ar sail oed.

Os ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich trin yn wael fel cwsmer ar sail eich oed, gallwch:

- Wneud cwyn drwy weithdrefn gwyno'r cwmni, gan ddatgan eich bod yn credu bod achos o wahaniaethu yn eich erbyn ar sail eich oed
- Rhoi gwybod am fusnes lleol i safonau masnach
- Yn dibynnu am bwy ydych chi'n cwyno, gallech fynd â'ch cwyn ymhellach i gorff rheoleiddio:
  - Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu ynglŷn â hysbysebion na ddarlledir, hyrwyddo gwerthiant a marchnata uniongyrchol. Efallai y byddwch am gwyno os ydych wedi gweld hysbyseb yn y wasg, rhywbeth yn cael ei hyrwyddo, taflen neu boster sydd, yn eich barn chi, yn dangos oedraniaeth, a'ch bod eisiau ei newid neu ei dynnu. Mae'r Awdurdod Safonau Hysbysebu yn gallu atal hysbysebion camarweiniol neu sarhaus a sicrhau bod hyrwyddo gwerthiant yn cael ei wneud yn deg.

Dylech gwyno am hysbysebion ar y teledu neu'r radio drwy'r rheolydd OFCOM (Y Swyddfa Gyfathrebiadau).

- Gallwch fynd â chwyn am gyrff ariannol, yswirwyr a banciau at yr Ombwdsmon Ariannol, sy'n gallu ymchwilio i gwynion heb eu datrys drwy broses gwyno'r sefydliad fel cam cyntaf.
- Yn ystod unrhyw un o'r camau uchod, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Cydraddoldeb i gael cyngor.
- Ewch â'ch eich busnes i rywle arall, a dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu i wneud yr un peth. Ysgrifennwch at y cwmni i ddweud wrthynt mai'r rheswm pam eu bod wedi colli busnes yw oherwydd eu bod yn gwahaniaethu ar sail oed. Mae arolygon ar-lein yn gallu bod yn ffordd bwerus i leisio eich barn, ac weithiau maen nhw'n gallu cael ymateb mwy ffafriol gan y cwmni os ydyn nhw'n ofni colli mwy o fusnes.

# Gwahaniaethu ar Sail Oedran a Hawliau Dynol

Mae hawliau dynol yn hawliau sylfaenol rydym oll yn eu rhannu. Bwriedir iddynt sicrhau y gall pawb fyw gyda hunan-barch a datblygu eu potensial yn llawn. Maent yn berthnasol i bawb yn yr un modd a dim ond mewn sefyllfaoedd penodol ac yn unol â'r gyfraith y gellir eu hepgor.

Mae hawliau dynol yn cynnig ffordd bwysig o ddiogelu pobl pan fyddant yn agored i niwed – gan gynnwys pobl hŷn sy'n cael gofal a chymorth – drwy bennu dyletswyddau'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal hawliau dynol.

Mae rhoi sylw i hawliau dynol yn un ffordd o osgoi gwahaniaethu ar sail oedran. Yn ymarferol, mae rhoi sylw i hawliau dynol yn golygu bod gwasanaethau cyhoeddus (e.e. ysbytai, ysgolion, awdurdodau lleol) yn rhoi'r hyn a elwir yn egwyddorion PANEL (Cyfranogi, Atebolrwydd, Peidio Gwahaniaethu, Grymuso a Chyfreithlondeb) a Deddf Hawliau Dynol 1998 ar waith wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

## Egwyddorion PANEL

- Cyfranogi: mae gan bawb hawl i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Rhaid i gyfranogi fod yn weithredol, am ddim ac yn ystyrlon a rhaid iddo roi sylw i faterion hygrychedd, gan gynnwys mynediad at wybodaeth ar ffurf ac mewn iaith y gellir eu deall.
- Atebolrwydd: rhaid bod cyfreithiau, polisïau, sefydliadau, gweithdrefnau gweinyddol a dulliau priodol ar gyfer unioni cam er mwyn sicrhau y gallwch gwyno pan fo hynny'n angenrheidiol.
- Peidio Gwahaniaethu: Rhaid gwahardd, rhwystro a dileu pob math o wahaniaethau wrth wireddu hawliau.
- Grymuso: dylai pawb wybod beth yw eu hawliau a chael cefnogaeth i gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau, a mynnu eu hawliau lle bo hynny'n angenrheidiol.
- Cyfreithlondeb: dylai awdurdodau lleol roi'r Ddeddf Hawliau Dynol ar waith a gwneud cysylltiadau â safonau hawliau dynol rhyngwladol a rhanbarthol.

## Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod cyhoeddus yn cydymffurfio â'r hawliau a'r rhyddid a geir yn y Ddeddf. Lle bo methiant i gydymffurfio, mae'n bosibl i unigolion wneud cais i lys neu dribiwnlys yn y DU.

Os oes rhywun yn gwahaniaethu yn eich erbyn, mae'n bosibl y gallwch ddefnyddio'r Ddeddf Hawliau Dynol i gymryd camau, neu i gryfhau eich achos.

Y prif hawliau yn y Ddeddf Hawliau Dynol yw:

- Erthygl 2: Hawl i fywyd
- Erthygl 3: Hawl i beidio â chael eich arteithio neu eich trin mewn modd annynol neu ddiraddiol
- Erthygl 5: Hawl i ryddid
- Erthygl 8: Hawl i'ch bywyd preifat a bywyd teuluol, eich cartref a'ch gohebiaeth gael eu parchu
- Erthygl 14: Hawl i neb wahaniaethu yn eich erbyn mewn perthynas ag unrhyw rai o'r hawliau a geir yn y Confensiwn Ewropeaidd.

Os teimlwch fod eich hawliau dynol wedi cael eu tramgwyddo, mae'n syniad da ceisio cyngor arbenigol cyn gynted â phosibl i'ch helpu i drafod eich opsiynau a phenderfynu ar y camau gorau i'w cymryd. Ystyrir materion hawliau dynol mewn termau ceisiadau cyfreithiol yn aml, ond nid yw hynny'n wir bob tro: mae'n dibynnu ar y cyd-destun a'ch amgylchiadau penodol.

Mae amryw o gamau eraill i'w hystyried yn gyntaf i'ch helpu i ddatrys problem:

- Cysylltu â'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb arbenigol ac am ddim
- Cysylltu â sefydliadau cyngori lleol neu genedlaethol fel CAB
- Dylech ystyried cysylltu â chyfreithiwr dibynadwy. Os ydych yn penderfynu gwneud hyn, mae'n syniad da ystyried nifer ohonynt yn gyntaf. Bydd nifer o ganolfannau cyngori yn argymhell cyfreithwyr a dyma'r ffordd orau o ganfod rhywun, ond gallwch hefyd ofyn am argymhellion gan ffrindiau ac aelodau o'ch teulu, neu edrych ar y fewnrwyd am gwmnïau arbenigol yn eich ardal. Gwnewch yn siŵr eich bod gwybod faint fydd cost y gwasanaeth cyn penodi rhywun.

# Manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor arbenigol am ddim

## ACAS

**Gwasanaeth annibynnol ar gyfer delio ag anghydfod rhwng gweithwyr a'u cyflogwyr.**

ACAS Swyddfa Ranbarthol Cymru  
Trydydd Llawr  
Fusion Point 2  
Dumballs Road  
Caerdydd, CF10 5BF

**0300 123 1100**

## Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA)

**Corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer hysbysebu ar draws yr holl gyfryngau yn y Deyrnas Unedig**

Advertising Standards Authority Limited  
Mid City Place  
71 High Holborn  
London, WC1V 6QT

**020 7492 2222**

## CAB (Canolfan Cyngor ar Bopeth)

**Mae'n helpu pobl i ddatrys eu problemau cyfreithiol, ariannol ac eraill trwy ddarparu cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim.**

Yn bersonol - chwiliwch ar-lein am eich canolfan agosaf: <https://citizensadvice.org.uk/index/getadvice.htm>

Llinell Gyngor Genedlaethol Cymru: 03444 77 20 20 (defnyddwyr TextRelay 03444 111 445)

Llinell Gyngor Defnyddwyr: 03454 04 05 06 (Neges destun, deialwch 18001 i ddechrau cyn rhif y llinell gymorth defnyddwyr)

Cynghorydd Cymraeg ar 03454 04 05 05 (i anfon neges destun deialwch 18001 cyn y rhif)

Cyngor ar-lein: <https://www.citizensadvice.org.uk/wales/>

## Cyngor Gofal Cymru

**Mae'n ymchwilio i gwynion am weithlu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.**

Rheolwr Ymchwiliadau Ymddygiad  
Cyngor Gofal Cymru  
South Gate House  
Stryd Wood  
Caerdydd, CF10 1EW

**029 2078 0644**  
**investigations@ccwales.org.uk**

## Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

**Ymchwilio i wasanaethau iechyd a gfoal cymdeithasol i sicrhau eu bod yn ddiogel i'r bobl sy'n eu defnyddio.**

Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful, CF48 1UZ

**0300 7900 126**  
**cssiw@wales.gsi.gov.uk**

## Cynghorau Iechyd Cymuned

**Cewch fanylion cyswllt eich cyngor agosaf yma: <http://www.wales.nhs.uk/ourservices/directory/CommunityHealthCouncils>**

## Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Cydraddoldeb

**Llinell gymorth sy'n cynghori a rhoi cymorth i unigolion ynglŷn â materion yn ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol.**

Freepost, Equality Advisory Support Service, FPN4431 (ar gyfer ymholiadau cychwynnol yn unig: peidiwch â chynnwys unrhyw ddogfennau)

**Rhif ffôn (rhif rhadffôn): 0808 800 0082 (I anfon neges destun 0808 800 0084)**

## Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**Cyngor ac arweiniad ynglŷn â hawliau, yn seiliedig ar gyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol.**

Bloc 1, Spur D  
Adeiladau'r Llywodraeth  
St Agnes Road  
Caerdydd, CF14 4YJ

**029 2044 7710**  
**wales@equalityhumanrights.com**

## Ombwdsmon Ariannol

**Mae'n ymchwilio ac yn ceisio datrys cwynion unigol na all defnyddwyr a busnesau ariannol eu datrys eu hunain.**

The Financial Ombudsman Service  
Exchange Tower  
London, E14 9SR

**0800 023 4 567 (mae galwadau i'r rhif hwn am ddim ar ffonau symudol a llinellau tir)**  
**Text 07860 027 586 a gofynnwch am alwad yn ôl**  
**complaint.info@financial-ombudsman.org.uk**

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**Arolygiaeth a chorff rheoleiddio annibynnol i'r holl ofal iechyd yng Nghymru. Mae'n ceisio gwella profiad pobl o ofal iechyd yng Nghymru.**

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car,  
Merthyr Tudful, CF48 1UZ

**0300 062 8163**

**Email: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**

## **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Mae'n ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus (e.e. darparwyr gofal annibynnol, y GIG a gwasanaethau'r cyngor fel cludiant a chyfleusterau hamdden) yng Nghymru.**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

**0300 790 0203**









